# CYNLLUN GRADDEDIGION
# CYNLLUNIO A DATBLYGU

CADNANT PLANNING

# PLANNING AND DEVELOPMENT
# GRADUATE SCHEME

CADNANTPLANNING.CO.UK

# YNGLŶN Â CADNANT PLANNING

Rydym yn dîm o ymgynghorwyr cynllunio a datblygu masnachol sy'n canolbwyntio ar sicrhau caniatâd cynllunio sy'n ychwanegu gwerth; dyraniadau defnydd tir; a chefnogaeth busnes i fusnes i sicrhau'r caniatâd sydd ei angen ar gyfer mentrau busnes gweithredol neu newydd.



Mae cael caniatâd cynllunio yn broses gymhleth sy'n cyflwyno ystod o heriau i berchnogion tir a datblygwyr. Yn Cadnant, mae gennym y wybodaeth a'r profiad i negodi'r system gynllunio i ddarparu'r canlyniad dymunol i'n cleientiaid.



**Rhys Davies**
Cyfarwyddwr



**Sioned Edwards**
Cynllunydd Cyswllt



**Sion Roberts**
Uwch Gynllunydd



**Sarinah Farooq**
Cynllunydd



**Marc Hamilton**
Rheolwr Cyfrifon a Gweinyddiaeth



**Dona Williams**
Gweinyddwraig Swyddfa

# YNGLŶN Â'N CYNLLUN GRADDEDIGION

Gall Cadnant Planning ddarparu amgylchedd wych i chi ddatblygu eich gyrfa gan weithio ar amrywiaeth eang o brosiectau yn bennaf ledled Cymru a Gogledd-Orllewin Lloegr. Byddwch yn cael y cyfle i weithio ar lwyth gwaith amrywiol gan gynnwys rhai prosiectau proffil uchel a chael profiad mewn ystod eang o waith.

Mae hwn yn gyfle gwych i ddatblygu eich gyrfa mewn amgylchedd gefnogol fel rhan o dîm prysur ac uchelgeisiol. Rydym yn gweithio gyda phob sector o'r diwydiant datblygu (cyhoeddus a phreifat) i'w cynorthwyo wrth lunio a gweithredu cynlluniau datblygu.

Fel Cynllunydd Graddedig, byddwch yn darparu cefnogaeth i'r tîm tra'n gweithio tuag at gyflawni cymhwyster MRTPI.

## BYDD EICH LLWYTH GWAITH YN CYNNWYS:

- Adolygu ymholiadau cynllunio a darparu cyngor cynllunio cychwynnol;
- Paratoi a chyflwyno ymholiadau cyn-ymgeisio;
- Paratoi a chyflwyno ceisiadau cynllunio ac apeliadau;
- Paratoi Arfarniadau Cynllunio;
- Strategaethau cynllunio; a
- Paratoi a chyflwyno sylwadau cynllun datblygu a monitro cynnydd.

Byddwch yn darparu cyngor ac arweiniad i amrywiaeth o gleientiaid gan gynnwys datblygwyr, adeiladwyr tai, busnesau twristiaeth, cwmnïau ynni ac unigolion preifat yn ogystal ag awdurdodau cynllunio lleol a sefydliadau sector trydydd parti eraill.

# PWY RYDYM YN CHWILIO AMDANO?

Byddwch yn gweithio ar nifer o brosiectau amrywiol, felly mae'r gallu profedig i reoli eich amser eich hun, llwyth gwaith a datrys problemau yn hanfodol. Yn ddelfrydol, byddwch hefyd yn gallu dangos y sgiliau sydd eu hangen i farchnata ac arloesi, neu yn barod i ddysgu a datblygu'r sgiliau hyn gan fod rhain yn elfennau pwysig o'r rôl hon o fewn y sector breifat.

## GOFYNION SYLFAENOL

- **Bod â gradd 2:2 (neu y disgwylir ei ddyfarnu) neu uwch mewn Cynllunio Tref, Daearyddiaeth neu radd debyg sy'n seiliedig ar dir.**
- **Os nad oes gennych radd achrededig RTPI, bod yn barod i ymgymryd â gradd Meistr mewn Cynllunio Tref y gellid ei hastudio'n rhan-amser ochr yn ochr â gweithio i ennill profiad.**
- **Parodrwydd i weithio tuag at aelodaeth siartredig o'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (MRTPI)**
- **Sgiliau dadansoddol, cyflwyno ac ysgrifennu rhagorol**
- **Ymrwymiad clir i weithio ym maes cynllunio a datblygu eiddo**

Mae hefyd yn ddymunol i chi allu siarad a chyfathrebu'n hyderus trwy gyfrwng y Gymraeg ynghyd â sgiliau ysgrifennu da yn y Gymraeg neu'n barod i ddysgu Cymraeg gyda chefnogaeth Cadnant Planning.

# Cyflog a Buddion

Mae Cadnant Planning yn gwmni cymdeithasol a chefnogol, lle bydd cefnogaeth ar gael ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus, ynghyd â'r cyfle i fynychu digwyddiadau rhwydweithio proffesiynol. Mae'r buddion yn cynnwys:

Lleoliad

Rydym yn cynnig hyblygrwydd i weithio o'n swyddfa yng Nghonwy neu Gaer ac hefyd weithio o gartref, ynghyd â'r cyfle i weithio mewn amgylchedd sy'n caniatáu cydbwysedd gwaith/bywyd ardderchog. Gall y swydd hon gynnwys rhywfaint o deithio i wahanol safleoedd gyda'r Cynllunwyr.

**Cyflog o £29,000- £32,000**
yn dibynnu ar brofiad a dilyniant

**Gradd Meistr achrededig RTPI wedi'i hariannu'n llawn**

**Gweithio hyblyg**

**Pensiwn cwmni**

**Bonws blynyddol**

**Cyfleoedd i fynychu digwyddiadau fel rhan o'r tîm**

**Cyfleoedd i ehangu eich rhwydweithiau**

**Aelodaeth RTPI, hyfforddiant ac astudiaethau pellach**
gan gynnwys cyrsiau iaith Gymraeg wedi'u ariannu

Ymunwch â'n

# TÎM!

**Rydym yn gwmni cymdeithasol a chefnogol. Fel cyflogwr cyfleoedd cyfartal rydym yn anelu at gael gweithle amrywiol a chynhwysol ac anogir ymgeiswyr cymwys o amrywiaeth eang o gefndiroedd i wneud cais.**

Anfonwch eich CV a llythyr eglurhaol at:

**rhys.davies@cadnantplanning.co.uk**

Rhowch wybodaeth lawn am eich addysg a'ch cymwysterau proffesiynol, gan gynnwys lefelau cyflawniad.

Conwy | 20 Tŷ Connaught, Parc Busnes Riverside, Ffordd Benarth, Conwy, LL32 8UB
Gaer | 1 Aldford House, Bell Meadow Business Park, Pulford, Chester, CH4 9EP

# Roadmap

## EICH GYRFA YN CADNANT PLANNING

### 01 Cynllunydd Graddedig

Yn ddibynnol ar eich sefyllfa, efallai y byddwch yn gweithio am 2 flynedd fel Cynllunydd Graddedig yn gweithio tuag at rôl 'Cynllunydd' ac yn gweithio tuag at eich statws siartredig MRTPI. Neu efallai y byddwch yn edrych i astudio tuag at radd Meistr achrededig RTPI ochr yn ochr â gweithio'n rhan-amser gyda Cadnant Planning gan ennill profiad wrth ichi astudio.

### 02 Cynllunydd


Ar ôl cwblhau eich gradd Meistr neu os oes gennych radd achrededig RTPI, byddai hyn yn eich galluogi i symud ymlaen i rôl Cynllunydd, gan weithio tuag at Statws Siartredig MRTPI (a gefnogir gan Cadnant Planning).

### 03 Senior Planner

Ar ôl i chi gael Statws Siartredig, byddai hyn yn eich galluogi i symud ymlaen tuag at rôl Cynllunydd Uwch.

### 04 Cynllunydd Cyswllt/ Cyfarwyddwr

Yn seiliedig ar brofiad a dilyniant, byddai cyfle i weithio tuag at rôl Cynllunydd Cyswllt/Cyfarwyddwr.




MONA
DAIRY


ZIP
WORLD





